

NARATIF

Pa berson sy'n adrodd yr hanes hwn? Sut ydych chi'n gwybod hyn?

Sawl digwyddiad mae Bethan yn sôn amdanynt yma? Ydyn nhw yn eu trefn Gronolegol?



'Hogan Dad' o'n i, yn bendant, fel y rhan fwya o ferched cyntaf-anedig, am wn i. Gan ei fod o i ffwrdd yn gweithio yn y Gwanas gymaint, mi fyddwn yn ei ddilyn fel ci bach bob tro y byddai adre. Dwi'n cofio, pan o'n i tua tair a hanner, ei wylion gosod ffenest newydd ac yn mynd ati o ddifri i neud joban daclus o osod y pwti. Pan aeth yn ei ôl am y Gwanas yn y Cortina brown, mi benderfynais y gallwn i roi chydig mwy o steil ar bethe. Mi fues i'n gwthio mysedd i bob darn o bwti y gallwn ei gyrraedd - i neud patrwm del fel y byddai Mam yn ei neud ar ymyl tarten riwbob. Ges i goblyn o row ganddo fo wedyn. Do'n i ddim yn cofio be wnes i yn sgil y row, ond yn ôl Mam, mi wnes i lyncu mul a mynd i fy llofft i grio.

"Ty'd lawr rwan, Bethan fach," galwodd ymhen ychydig. "Dwi'm wedi gorffen crio eto!" gwaeddais yn ôl. Erbyn iddi fynd i chwilio amdana i, ro'n i wedi sgwennu dros waliau eu llofft nhw efo lipstic. "Fydde 'na'm posib ennill y dydd efo ti," meddai Mam. Nago'n, do'n i ddim yn angel o bell ffordd. Yn deirblwydd a thri mis, mi dorrais fy ngwallt cyrls melyn i ffwrdd; dwi'n gwybod y dyddiad yn union am fod Mam wedi cadw'r cyrls mewn amlen ac maen nhw'n dal gen i. A nagoes, does gen i'm clem be ddaeth drosta i i'w torri. Ond roedd llawer iawn gwaeth i ddod...

Pa eiriau Saesneg wedi'u Cymreigio sy'n cael eu defnyddio yma? Ydy hyn yn dderbyniol?

Beth yw ystyr "llyncu mul"? Pa nodwedd arddull yw hon?

Pa fath o iaith mae Bethan yn ei defnyddio? Pam ydych chi'n dweud hyn?

Hanas Gwanas – Hunangofiant Bethan Gwanas – Gwasg Gwynedd

